Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Disgrifiad Swydd: Cymrawd Academaidd Meddyg Teulu

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd |
| **Adran/Pwnc:** | Meddygaeth |
| **Cyflog:** | £83,334 y flwyddyn, pro rata i weithwyr rhan-amser, ynghyd â buddion pensiwn USS (Gall cymrodorion ddewis talu i bensiynau'r GIG sydd eisoes yn bodoli os yw'n well ganddynt) |
| **Oriau gwaith:** | Amser llawn |
| **Nifer y Swyddi:** | 2 |
| **Contract:** | Rôl am gyfnod penodol o 2 flynedd yw hon |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Parc Singleton |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddiben y Swydd:** | Mae'r cynllun cyffrous hwn yn darparu cyfle gyrfaol rhagorol i feddygon teulu sydd newydd gymhwyso neu rai profiadol sydd am feithrin gwybodaeth a phrofiad mewn addysg ac ymchwil feddygol. Yn ogystal â hynny, y gobaith yw y bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn ennill rhagor o gymwysterau uwch yn eu maes diddordeb.<br>Mae'n debygol y bydd y swydd yn dechrau ym mis Ionawr 2025, ond mae'r dyddiad dechrau'n hyblyg. **Rydym yn annog ymgeiswyr sydd am ymgymryd â'r cynllun Cymrodoriaeth ar sail lai nag amser llawn i gyflwyno cais.**<br>Bydd Cymrodorion Academaidd amser llawn yn gweithio yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe am dri diwrnod yr wythnos a byddant yn gweithio am y ddau ddiwrnod arall mewn meddygfeydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys neu Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, gan ddarparu cymorth i feddygfa teulu i wella systemau gofal cleifion ac ymarfer. Dyrennir amser Cymrodorion rhan-amser yn unol â'u hanghenion unigol. Er enghraifft, bydd Cymrawd sy'n gweithio 60% CALl yn gweithio yn y Brifysgol am ddeuddydd yr wythnos ac yn gweithio mewn Meddygfa Teulu am y diwrnod sy'n weddill.<br>Bydd y rhaglen yn para am ddwy flynedd; Bydd Cymrodorion yn gweithio am flwyddyn mewn meddygfeydd gwahanol (h.y. dwy feddygfa yn ystod y rhaglen). O ystyried lleoliad gwledig rhai o'r meddygfeydd teulu sy'n rhan o'r cynllun Cymrodoriaeth Academaidd, trafodir lleoliadau gwaith addas â'r ymgeiswyr llwyddiannus. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | Mae'r cynllun yn darparu cyfle delfrydol i glinigwyr ddatblygu gyrfa mewn:<br>• **Addysg Feddygol.** Disgwylir iddynt gyfrannu at addysgu myfyrwyr meddygaeth yn amgylchedd y Brifysgol a/neu mewn ysbyty/lleoliad gwaith mewn meddygfa teulu. Disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus arwain wrth gyflwyno cydran o'r rhaglen feddygaeth israddedig o dan oruchwyliaeth.<br>• **Ymchwil academaidd.** Bydd staff Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe'n darparu cymorth unigol sylweddol i sicrhau datblygiad proffesiynol a phersonol Cymrodorion. Rhoddir cymorth i ymgeiswyr llwyddiannus i ddod o hyd i faes ymchwil sydd o ddiddordeb iddynt ac y gellir ei gefnogi gan raglenni ymchwil helaeth yr Ysgol Feddygaeth.<br>Nid oes angen profiad academaidd blaenorol. Disgwylir i Gymrodorion ddatblygu cryfderau addysgu ac ymchwil, ond bydd y llwybr a ddewisir gan y Cymrawd yn dibynnu ar ei ddiddordebau ei hun.<br>Disgwylir i Gymrodorion Academaidd gymryd rhan mewn Cynhadledd/Cynadleddau Meddygol neu Addysg Feddygol a rhoi cyflwyniadau ynddynt yn ystod eu dwy flynedd, ac mae cyllid ar gael i gefnogi hyn.<br>Mae cyllid ar gael i gefnogi Cymrodorion os byddant yn dymuno ymgymryd â chymwysterau uwch, e.e. diploma ôl-raddedig mewn addysg feddygol. |

Swansea University
Prifysgol Abertawe

## Meini Prawf y Fanyleb Person

**Meini Prawf Hanfodol**

1. Ymarferydd meddygol cymwysedig
2. Wedi cofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol
3. Yn meddu ar Dystysgrif Cwblhau Hyfforddiant

**Meini Prawf Dymunol**

1. Profiad addysgu blaenorol
2. Profiad ymchwil blaenorol
3. Cyhoeddiadau
4. Tystiolaeth o ddiddordeb academaidd (e.e. swydd academaidd flaenorol, presenoldeb a chyflwyniadau mewn cynadleddau)
5. Cyflwyniadau ymchwil
6. Hanes o ddatblygu gwasanaethau i gleifion
7. Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg

## Iaith Gymraeg:

Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.

Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma.

## Gwybodaeth Ychwanegol

**Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn destun datgeliad uwch o gollfarnau troseddol i'w gynnal drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.**

Croesewir ymholiadau anffurfiol a dylid eu cyfeirio at sylwcyfarwyddwyr y rhaglen:
Dr Jonathan Harikrishnan jonathan.harikrishnan@wales.nhs.uk
Dr Chris Horn c.r.horn@abertawe.ac.uk

Athena SWAN Silver Award ECU Gender Charter
Stonewall Cymru Diversity Champion
HR Excellence in Research